**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 21 AWST 2024 YN NHŶ HASTINGS, CAERDYDD A THRWY MICROSOFT TEAMS (09:30 – 11:00)**

**Aelodau'r Comisiwn a oedd yn bresennol:** Michael Imperato (Cadeirydd), Frank Cuthbert (Aelod), Andrew Blackmore (Aelod Annibynnol) a Kalwant Grewal drwy MS Teams (Aelod Annibynnol).

**Cynrychiolydd Archwilio Cymru a oedd yn bresennol:** Julie Rees drwy MS Teams

**Cynrychiolydd TIAA a oedd yn bresennol:** Elan Parry drwy MS Teams

**Cynrychiolydd Cymwysterau Cymru a oedd yn bresennol:** Sean Gaffney drwy MS Teams

**Swyddogion y Comisiwn a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr), Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni), David Carr (Rheolwr Cyllid), David Burley (Pennaeth Busnes) a Christian Lovatt (Cymorth Tîm)

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Dianne Bevan.

## 2. Datganiadau o fuddiant

2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2024, ar yr amod bod nodyn yn cael ei gynnwys i esbonio bod cyfarfod arfaethedig y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024 wedi'i aildrefnu ac wedi'i gynnal ym mis Awst 2024.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Awst 2024

## 4. Materion a oedd yn codi o'r cyfarfod blaenorol

4.1 Nododd y Pwyllgor fod camau gweithredu wedi'u cymryd yng nghyswllt mwyafrif y materion a oedd yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

4.2 Roedd dau bwynt gweithredu'n weddill o hyd:

- Darparu hyfforddiant ynghylch diogelwch TGCh i bob Aelod, gan gynnwys yr Aelodau Annibynnol nad oes ganddynt fynediad i system TGCh y Comisiwn; ac

- Ystyried ffordd fwy effeithiol o fesur sut y mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ychwanegu gwerth at y Comisiwn.

4.3 O ran hyfforddiant ynghylch TGCh, **cytunwyd** y dylai hynny gael ei ohirio nes bod aelodau newydd a Chadeirydd wedi'u penodi ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. At hynny, byddai angen penderfynu ar fformat yr hyfforddiant – naill ai ar-lein a fyddai'n galluogi'r Aelodau i'w gyflawni yn eu hamser eu hunain, neu wyneb yn wyneb mewn sesiwn a hwylusir gan Cymwysterau Cymru. **Cytunwyd** mai'r dull a gâi ei ffafrio oedd hyfforddiant wyneb yn wyneb, ac y gellid ei drefnu ar gyfer dyddiad un o'r cyfarfodydd a gynhelir yn y dyfodol.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid/Cymwysterau Cymru **Erbyn**: 31 Rhagfyr 2024

4.4 O ran ystyried sut y mae'r Pwyllgor yn ychwanegu gwerth, nodwyd y byddai hynny'n newid yn sgil gofynion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd. Bernid y byddai modd ymdrin â'r mater hwn ar ôl recriwtio Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd, ac ar ôl trafod y mater â'r Cadeirydd hwnnw o safbwynt datblygu ac o safbwynt sut yr oedd yn dymuno symud ymlaen. **Cytunwyd** i ymdrin â'r mater hwn ar ôl sefydlu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

4.5 Bernid bod angen dogfen drosglwyddo gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd, a fyddai'n nodi prif faterion ac arferion da'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y gellid eu trafod mewn cyfarfod ar y cyd rhwng y ddau Bwyllgor. **Cytunwyd** y byddai'r Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid yn drafftio'r ddogfen drosglwyddo. **Cytunwyd** y byddai angen adolygu a diweddaru'r broses sefydlu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio newydd, fel ei bod yn cynnwys y swyddogaethau newydd (i'w gyflawni yn y cyfarfod ar y cyd).
**Gweithredu**: Prif Weithredwr/Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Rhagfyr 2024

## 5. Adroddiad ynghylch Diogelwch TGCh a Data

5.1 Adroddwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelwch data ers yr adroddiad diwethaf.

5.2 Amlinellodd Sean Gaffney brif bwyntiau'r Adroddiad newydd ynghylch Diogelwch TGCh. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion y bygythiadau diweddaraf a nodwyd gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, a oedd fwyaf perthnasol i'r Comisiwn. Canolig oedd sgôr y Comisiwn ar hyn o bryd ar gyfer cryfder a bregusrwydd o ran seiberddiogelwch, oherwydd bod angen diweddaru meddalwedd 7-Zip a oedd yn ofynnol ar gyfer un aelod o staff yn unig. Esboniodd Sean Gaffney ei bod yn fwy problemus diweddaru'r feddalwedd hon oherwydd nad oedd y staff i gyd yn ei defnyddio. Risg weddilliol oedd hynny yn y sgôr ar gyfer bregusrwydd, yn hytrach na'i bod yn fygythiad agos. Pan fyddai'r broblem wedi'i datrys, y disgwyl oedd mai Isel fyddai'r sgôr unwaith eto ymhen ychydig ddiwrnodau.

5.3 Nodwyd bod achrediad Cyber Essentials Plus y Comisiwn ar gyfer diogelwch wedi dod i ben yn ddiweddar, ar 12 Gorffennaf, a bod achrediad Lefel 1 IASME wedi dod i ben yn ddiweddar iawn hefyd. Adroddwyd bod y broses adnewyddu ar gyfer Cyber Essentials yn cael ei chyflawni ar hyn o bryd gan werthwr newydd, a bod hynny wedi arwain at oedi yn y broses adnewyddu. Fodd bynnag, roedd y broses honno'n tynnu at ei therfyn erbyn hyn, ac yn dilyn hynny byddai modd i'r Comisiwn adnewyddu ei safon IASME ar gyfer diogelwch. Nodwyd bod yr oedi o ran adnewyddu achrediadau

Cyber Essentials a IASME yn achosi mwy o risg i enw da'r Comisiwn nag i ddiogelwch TG.

## 6. Archwilio Cymru: Cynllun Archwilio 2024

6.1 Esboniodd Julie Rees fod y Cynllun Archwilio ar gyfer 2024 yn egluro'r gwaith arfaethedig ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2023-24. Roedd y gwaith o archwilio'r cyfrifon drafft wedi'i gwblhau i raddau helaeth erbyn hyn ac roedd y Comisiwn wrthi ar hyn o bryd yn gwneud yr addasiadau archwilio i'r cyfrifon drafft er mwyn llunio'r fersiwn terfynol ohonynt. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl cwblhau'r broses mewn pryd i allu cyflwyno'r cyfrifon archwiliedig yn y cyfarfod, a byddai'n rhaid iddynt gael eu cymeradwyo yn y cyfarfod a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 23 Medi.

6.2 Roedd yr adroddiad yn egluro lefel perthnasedd ar gyfer camddatganiadau yn y cyfrifon, sef £23,000, ac roedd Arddangosyn 1 yn dangos y brif risg archwilio ariannol a allai arwain at gamddatganiadau perthnasol, sef y risg bod y tîm rheoli'n diystyru mesurau rheoli. Ymateb y tîm archwilio i hynny oedd rhoi prawf ar gofnodion dyddlyfrau a'r addasiadau a wnaed i'r datganiadau ariannol, gan adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu a gwirio trafodion o bwys.

6.3 Roedd Arddangosyn 2 yn egluro risgiau pellach o gamddatganiadau perthnasol, a oedd yn ymwneud â'r canlynol:

- Rhoi cyfrif am yr incwm a gafwyd gan awdurdodau lleol yng nghyswllt Adolygiadau Cymunedol.
- Datgelu partïon cysylltiedig a chydnabyddiaeth ariannol i Uwch-swyddogion.

6.4 Roedd y Cynllun hefyd yn cynnwys manylion y tîm archwilio a'r amserlen ac yn egluro'r ffi archwilio ar gyfer y flwyddyn, a oedd wedi cynyddu 6.4% yn unol ag ymgynghoriad diweddaraf Archwilio Cymru ynghylch ffïoedd.

6.5 Nododd y Pwyllgor y Cynllun Archwilio ar gyfer 2024.

## 7. Adroddiad ynghylch Archwiliad Allanol o Ddatganiadau Ariannol 2023-24

7.1 Gan nad oedd y cyfrifon archwiliedig terfynol ar gael eto, esboniodd Julie Rees y byddai'r adroddiad ynghylch yr archwiliad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ar 23 Medi yn awr, ynghyd â'r cyfrifon terfynol.

7.2 Holodd y Pwyllgor a oedd yr archwiliad wedi codi unrhyw bryderon o bwys y dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt. Dywedodd Julie Rees nad oedd unrhyw faterion o bwys wedi codi o ganlyniad i'r archwiliad, a oedd wedi arwain at rai mân ganfyddiadau ac addasiadau archwilio'n unig.

## 8. Rheoli Risg

8.1 Cafodd y cofrestrau risg cyfredol eu hystyried, a nodwyd manylion y newidiadau a oedd wedi'u gwneud i'r gofrestr risg gorfforaethol a'r gofrestr risg weithredol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

8.2 Nododd y Pwyllgor fod fformat y papurau rheoli risg wedi newid i fformat ‘dangosfwrdd’ cryno, a oedd yn golygu eu bod yn haws i’w darllen, ac nad oedd y cofrestrau risg llawn yn cael eu hatodi wrthynt mwyach. Bernid y byddai angen o hyd i Aelodau’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg weld y cofrestrau risg o dro i dro, a **chytunwyd** y dylid eu darparu ar wefannau SharePoint yr Aelodau ac y dylent gael eu diweddaru fel y bo angen.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Awst 2024

## 9. Y Gofrestr Risg ynghylch TGCh

9.1 Cafodd y gofrestr gyfredol ynghylch TGCh ei hystyried. Adroddwyd ynghylch manylion y newidiadau a oedd wedi’u gwneud i’r gofrestr ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, a chawsant eu **nodi**.

9.2 **Cytunwyd** y byddai’r gofrestr risg ynghylch TGCh yn cael ei darparu hefyd ar wefannau SharePoint yr Aelodau.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Awst 2024

## 10. Asesiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2023-24

10.1 Nododd y Pwyllgor ganlyniad yr Asesiad Archwilio Mewnol ar gyfer 2023-24, a oedd yn gadarnhaol iawn. **Cytunwyd** na ddylai canlyniadau ymarferion yn y dyfodol gael eu hanfon ymlaen i TIAA yn rhan o bapurau’r cyfarfod ac y dylai’r drafodaeth yn ystod y cyfarfod gael ei chynnal yn breifat, gyda chynrychiolydd TIAA yn gadael y cyfarfod tra byddai’r eitem yn cael ei thrafod.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Gorffennaf 2025

10.2 Bernid bod angen cynnal trafodaethau â TIAA ynghylch sut y bydd eu swyddogaeth archwilio yn parhau’n effeithiol yn unol â chyfrifoldebau a swyddogaethau cynyddol y Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai hynny’n cael ei gyflawni wrth gynllunio gwaith archwilio mewnol ar gyfer 2025-26, gyda mewnbwn gan Aelod Annibynnol.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 4 Mawrth 2025

## 11. Diweddariad ynghylch symud i leoliad newydd

11.1 Rhoddodd y Pennaeth Busnes ddiweddariad ar lafar ynghylch y cynnydd a wnaed o ran symud i leoliad newydd. Roedd copi o’r brydles wedi dod i law erbyn hyn oddi wrth Lywodraeth Cymru. Roedd cynghorydd cyfreithiol y Comisiwn wedi adolygu’r brydles ac wedi gofyn rhai cwestiynau i Lywodraeth Cymru ynghylch arolygon asbestos ac arolygon trydanol, ond bernid na fyddai hynny’n arwain at unrhyw oedi.

11.2 Roedd disgwyl i BT osod y gwifrau ar gyfer y cysylltiad PSBA ym Mharc Cathays ar 13 Medi 2024 er mwyn paratoi ar gyfer trosglwyddo’n llawn yn nes ymlaen, ond ni fyddai hynny’n effeithio ar sut y byddai system TGCh y Comisiwn yn gweithio yn Nhŷ Hastings. Y cam nesaf yw cytuno ar drefniadau gyda Cymwysterau Cymru ar gyfer trosglwyddo caledwedd TGCh y Comisiwn i Barc Cathays. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd y symud yn digwydd ddiwedd mis Medi 2024.

11.3 Holodd y Pwyllgor pa effaith y byddai’r symud yn ei chael ar integriti ac annibyniaeth polisïau’r Comisiwn. Cadarnhawyd y byddai angen i rai polisïau a’r Cynllun Parhad

Busnes gael eu diweddaru ar ôl y symud. Bernid y byddai angen i'r risgiau yng nghyswllt y newidiadau i bolisïau gael eu cofnodi yn y cofrestrau risg ac y byddai angen adrodd yn eu cylch wrth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. **Cytunwyd** y byddai rhestr o newidiadau i bolisïau'n cael ei llunio fel y gallai'r Pwyllgor fonitro'r cynnydd a wneir o ran rhoi'r newidiadau ar waith.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Hydref 2024

11.4 **Cytunwyd** y dylid cynnal cyfarfod eithriadol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar ôl symud i'r lleoliad newydd, er mwyn asesu'r newidiadau i bolisïau.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 30 Tachwedd 2024

## 12. Rhaglen Waith y Dyfodol

12.1 Nododd y Pwyllgor y sefyllfa bresennol o ran rhaglen waith y dyfodol fel yr adroddwyd yng nghyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2024. Nodwyd nad oedd Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) wedi cael Cydsyniad Brenhinol eto. Roedd disgwyl y byddai hynny'n cael ei drafod ymhlith materion eraill mewn cyfarfod rhwng y Prif Weithredwr ac Is-adran Noddi Llywodraeth Cymru yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw, ac y byddai'r Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol yn fuan. Roedd gwaith yn mynd rhagddo hefyd ar swyddogaeth y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ac roedd staff yn gweithio ar y trosglwyddo a'r gwaddol.

12.2 Holodd y Pwyllgor sut yr oedd y Comisiwn yn bwriadu integreiddio a rheoli swyddogaethau ychwanegol o fewn y fframwaith gweithredol presennol. Adroddwyd bod rhywfaint o gyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn gyfredol ac yn ystod y blynyddoedd nesaf. Adroddwyd hefyd bod staff wedi'u pennu i adran Iechyd Democrataidd newydd sydd ag Uwch-swyddog Gweithredol newydd, ac y byddai rhagor o staff newydd yn cael eu penodi.

## 13. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar gyfer 2024-25

13.1 Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai angen i'r Cynllun Gwaith gael ei adolygu a'i ddiweddaru ar ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael ei sefydlu pan ddaw Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) i rym. **Cytunwyd** y byddai angen i hynny gael ei drafod ymhellach cyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd.

## 14. Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

14.1 Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn adolygu ac yn diweddaru'r Cylch Gorchwyl yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd er mwyn paratoi ar gyfer trosglwyddo'r awenau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. **Cytunwyd** y dylid cynnal ymarfer i adolygu'r Cylch Gorchwyl cyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd, gyda sylwadau'r Aelodau Annibynnol yn cael eu nodi er mwyn paratoi i drafod yn y cyfarfod.
**Gweithredu**: Rheolwr Cyllid **Erbyn**: 31 Hydref 2024

## 15. Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Archwilio 2024-25

15.1 Nododd y Pwyllgor y Cynllun Archwilio Mewnol Terfynol ar gyfer 2024-25.

**16. Argymhellion Archwilio – Adroddiad ynghylch Cynnydd**

16.1 Nododd y Pwyllgor y sefyllfa bresennol o ran gweithredu'r argymhellion archwilio a oedd yn weddill.

**17. Adroddiad Monitro'r Gyllideb**

17.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ynghylch y gyllideb, a oedd wedi'i gyflwyno i gyfarfod y Comisiwn ar 31 Gorffennaf.

**18. Rhestr Golledion 2023-24**

18.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw golledion yn ystod 2023-24.

**19. Adroddiadau Archwilio Cymru**

19.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad gan Julie Rees, a oedd yn rhoi manylion am waith cyfredol ac arfaethedig gan Archwilio Cymru ynghyd â manylion am gyhoeddiadau diweddar a blaenraglenni gwaith arfaethedig.

**20. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau**

20.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw roddion na lletygarwch wedi'u datgan ers y cyfarfod diwethaf.

**21. Cwynion**

21.1 Nododd y Pwyllgor y gŵyn ddiweddar a oedd wedi dod i law'r Comisiwn. Adroddwyd nad oedd yr achwynydd wedi ymateb hyd yma i ateb y Comisiwn i'w lythyr.

**22. Adroddiad ynghylch Chwythu'r Chwiban a Thwyll**

22.1 Nododd y Pwyllgor nad oedd yr un achos o chwythu'r chwiban neu o dwyll wedi digwydd ers yr adroddiad diwethaf.

**23. Adroddiad ynghylch Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth**

23.1 Nododd y Pwyllgor y ceisiadau am wybodaeth a oedd wedi dod i law'r Comisiwn rhwng 21 Chwefror 2024 ac 13 Awst 2024, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**24. Unrhyw Fater Arall**

24.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

## 25. Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf

25.1 Mae dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf wedi'u pennu, sef 23 Medi 2024 am 9:30, 26 Tachwedd 2024 am 9:30 a 4 Mawrth 2025 am 9:30.